



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 752 (Cy.102)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Bwrdd yr Iaith
Gymraeg (Trosglwyddo Staff,
Eiddo, Hawliau a
Rhwymedigaethau) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn darparu ar gyfer diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ("y Bwrdd") a sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"). Ar ôl ei ddiddymu bydd y rhan fwyaf o swyddogaethau cyfredol y Bwrdd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r Comisiynydd o dan y Mesur. Bydd swyddogaeth y Bwrdd o ran hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o dan adran 3 o Ddeddf 1993 yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn ogystal ag i'r Comisiynydd. Rhoddir effaith i drosglwyddo'r swyddogaeth i Weinidogion Cymru yn rhinwedd gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 154 o'r Mesur.

O ganlyniad i ddiddymu'r Bwrdd a throsglwyddo'i swyddogaethau, mae angen darpariaeth ddeddfwriaethol benodol i ddelio â throsglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd. I'r perwyl hwnnw, mae paragraffau 1 a 2 o Atodlen 12 i'r Mesur yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer i wneud darpariaeth, drwy orchymyn, sy'n ymwneud â throsglwyddo staff y Bwrdd i'w cyflogi naill ai gan y Comisiynydd neu gan Lywodraeth Cymru a throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd naill ai i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn gan ddibynnu ar y pwerau a ddarperir gan baragraffau 1 a 2 o Atodlen 12 i'r Mesur.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 752 (W.102)

WELSH LANGUAGE, WALES

The Welsh Language Board
(Transfer of Staff, Property, Rights
and Liabilities) Order
2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 ("the Measure") provides for the abolition of the Welsh Language Board ("the Board") and the establishment of the office of Welsh Language Commissioner ("the Commissioner"). Upon its abolition the majority of the Board's current functions under the Welsh Language Act 1993 will transfer under the Measure to the Commissioner. The Board's function of promoting and facilitating the use of the Welsh language under section 3 of the 1993 Act will transfer to the Welsh Ministers as well as to the Commissioner. The transfer of the function to the Welsh Ministers will be given effect by virtue of an order made by the Welsh Ministers under section 154 of the Measure.

As a consequence of the Board's abolition and the transfer of its functions, specific legislative provision is required to deal with the transfer of the Board's staff, property, rights and liabilities. To that end, paragraphs 1 and 2 of Schedule 12 to the Measure provide the Welsh Ministers with the power to make provision, by order, relating to the transfer of the Board's staff to the employment of either the Commissioner or the Welsh Government and the transfer of the Board's property, rights and liabilities to either the Commissioner or the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make this Order in reliance upon the powers provided by paragraphs 1 and 2 of Schedule 12 to the Measure.

Caiff swydd y Comisiynydd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2012 (fe'i diffinnir yn y Gorchymyn fel "y dyddiad trosglwyddo"). Bydd yr aelodau hynny o staff y Bwrdd sydd wedi derbyn cynnig i gael eu cyflogi naill ai gan y Comisiynydd neu gan Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad trosglwyddo yn trosglwyddo, ar y dyddiad hwnnw, i'w cyflogwr newydd o ganlyniad i erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

Bydd y mwyafrif o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd yn trosglwyddo naill ai i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru o dan erthygl 4. Mae erthygl 4(1) yn cyflwyno'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n pennu'r eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, ac a fyddant yn dod yn eiddo, yn hawliau ac yn rhwymedigaethau i Weinidogion Cymru o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Yn ddarostyngedig i erthygl 5 bydd pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall y mae gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu y mae'r Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt cyn y dyddiad trosglwyddo, yn trosglwyddo ar y dyddiad hwnnw i'r Comisiynydd.

Mae erthygl 5 yn gymwys mewn perthynas â chontractau cyflogaeth personau sydd neu sydd wedi bod, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gyflogeion y Bwrdd ac na fydd yn trosglwyddo i gyflogwr newydd o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn. Bydd unrhyw hawliau a rhwymedigaethau i'r Bwrdd mewn perthynas â'r cyflogeion a'r cyn-gyflogeion hyn yn trosglwyddo dan erthygl 5(1) i Weinidogion Cymru. Mae erthygl 5(2) yn sicrhau bod unrhyw beth a wnaed gan y Bwrdd neu mewn perthynas â'r Bwrdd mewn cysylltiad â'r person neu â chontract cyflogaeth y person hwnnw i'w drin, ar ôl y dyddiad trosglwyddo, fel pe byddai wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy.

Mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth am hawliau mynediad at gofnodion y Bwrdd a fydd, o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, yn trosglwyddo i berchnogaeth naill ai'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru ar y dyddiad trosglwyddo.

Mae erthygl 7 yn sicrhau nad effeithir ar drosglwyddiadau o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, y rhoddir effaith iddynt gan y Gorchymyn hwn, gan unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag y bo) a fyddai fel arall yn gweithredu i atal y trosglwyddiadau hynny neu gyfyngu arnynt.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn a gellir cael copi gan yr Uned Iaith Gymraeg, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Commissioner's office will be established on 1 April 2012 (defined in the Order as "the transfer date"). Those members of the Board's staff who have accepted an offer of employment with either the Commissioner or the Welsh Government before the transfer date will, on that date, transfer to their new employer as a result of article 3 of this Order.

The majority of the Board's property, rights and liabilities will transfer to either the Commissioner or the Welsh Ministers under article 4. Article 4(1) introduces the Schedule to this Order which specifies the property, rights and liabilities to which the Board was entitled or subject immediately before the transfer date that will become the property, rights and liabilities of the Welsh Ministers from that date. Subject to article 5, all other property, rights and liabilities to which the Board is entitled or subject prior to the transfer date will, on that date, transfer to the Commissioner.

Article 5 applies in relation to the employment contracts of persons who, prior to the transfer date, are or have been Board employees and who will not transfer to a new employer as a result of this Order. Any rights and liabilities of the Board arising in connection with these employees and former employees will transfer under article 5(1) to the Welsh Ministers. Article 5(2) ensures that anything done by or in relation to the Board in respect of the person or their contract of employment is treated after the transfer date as having been done by or in relation to the Welsh Ministers.

Article 6 makes provision about rights of access to Board records that will, as a result of this Order, transfer to the ownership of either the Commissioner or the Welsh Ministers on the transfer date.

Article 7 ensures that the transfers of property, rights and liabilities given effect by this Order are unaffected by any provision (of whatever nature) which would otherwise operate to prevent or restrict those transfers.

A Regulatory Impact Assessment for this Order has been prepared and a copy can be obtained from the Welsh Language Unit, Department for Education and Skills, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 752 (Cy.102)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Bwrdd yr Iaith
Gymraeg (Trosglwyddo Staff,
Eiddo, Hawliau a
Rhwymedigaethau) 2012

Gwnaed 7 Mawrth 2012
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 9 Mawrth 2012
Yn dod i rym 1 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 146 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 12 iddo, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2012.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2012 ac mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at—

- (a) "personau A" ("*persons A*") yn cyfeirio at bersonau sy'n cael eu cyflogi gan y Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sydd wedi cael ac wedi derbyn cyn y dyddiad hwnnw gynnig i gael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- (b) "personau B" ("*persons B*") yn cyfeirio at bersonau sy'n cael eu cyflogi gan y Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sydd wedi cael ac wedi derbyn cyn y dyddiad hwnnw gynnig i gael eu cyflogi gan y Comisiynydd;

2012 No. 752 (W.102)

WELSH LANGUAGE, WALES

The Welsh Language Board
(Transfer of Staff, Property, Rights
and Liabilities) Order
2012

Made 7 March 2012
*Laid before the National
Assembly for Wales* 9 March 2012
Coming into force 1 April 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 146 and 150(5) of, and paragraphs 1 and 2 of Schedule 12 to, the Welsh Language (Wales) Measure 2011(1), make the following Order:

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Welsh Language Board (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2012.

(2) This Order comes into force on the 1 April 2012.

Interpretation

2.—(1) In this Order, "transfer date" ("*dyddiad trosglwyddo*") means 1 April 2012 and references in this Order to—

- (a) "persons A" ("*personau A*") are to persons employed by the Board immediately before the transfer date who have been offered and have accepted before that date employment with the Welsh Assembly Government;
- (b) "persons B" ("*personau B*") are to persons employed by the Board immediately before the transfer date who have been offered and have accepted before that date employment with the Commissioner;

- (c) "personau C" ("*persons C*") yn cyfeirio at bersonau sy'n cael neu sydd wedi cael eu cyflogi gan y Bwrdd ar unrhyw adeg cyn y dyddiad trosglwyddo ac nad yw eu cyflogaeth yn trosglwyddo i'r Comisiynydd nac i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn;
- (d) "cofnodion" ("*records*") yn cynnwys cofnodion ysgrifenedig a chofnodion sy'n cyfleu gwybodaeth drwy unrhyw ddull arall.

Trosglwyddo Staff

3.—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo bydd personau A yn trosglwyddo i gael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(2) Ar y dyddiad trosglwyddo bydd personau B yn trosglwyddo i gael eu cyflogi gan y Comisiynydd.

Trosglwyddo, yn gyffredinol, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd

4.—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo caiff yr eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau a bennir yn yr Atodlen ac yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad hwnnw, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(2) Yn ddarostyngedig i erthygl 5, ar y dyddiad trosglwyddo caiff pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth arall yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad hwnnw, eu trosglwyddo i'r Comisiynydd.

Hawliau a rhwymedigaethau arall sy'n trosglwyddo etc.

5.—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo caiff yr hawliau a'r rhwymedigaethau o dan gontractau cyflogaeth personau C neu mewn cysylltiad â'r contractau hynny ac yr oedd gan y Bwrdd hawlogaeth iddynt neu yr oedd y Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad hwnnw eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(2) Mae unrhyw beth sy'n cael ei wneud cyn y dyddiad trosglwyddo gan y Bwrdd neu mewn perthynas â'r Bwrdd o ran unrhyw berson C neu ei gontract cyflogaeth i'w drin o'r dyddiad hwnnw fel pe byddai wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy.

Mynediad at gofnodion

6.—(1) Pan fo cofnodion yr oedd y Bwrdd yn berchen arnynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo wedi eu trosglwyddo i'r Comisiynydd o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol—

- (a) edrych ar y cofnodion hynny; a

- (c) "persons C" ("*personau C*") are persons who are or have been employed by the Board at any time before the transfer date and whose employment does not transfer to the Commissioner or Welsh Assembly Government as a result of this Order;

- (d) "records" ("*cofnodion*") include written records and records conveying information by any other means.

Transfer of staff

3.—(1) On the transfer date persons A transfer to the employment of the Welsh Assembly Government.

(2) On the transfer date persons B transfer to the employment of the Commissioner.

General transfer of the Board's property, rights and liabilities

4.—(1) On the transfer date the property, rights and liabilities specified in the Schedule to which the Board was entitled or subject immediately before that date transfer to the Welsh Ministers.

(2) Subject to article 5 all other property, rights and liabilities to which the Board was entitled or subject immediately before the transfer date transfer on that date to the Commissioner.

Other rights and liabilities being transferred etc.

5.—(1) On the transfer date the rights and liabilities arising under or in connection with the employment contracts of persons C to which the Board was entitled or subject immediately before that date transfer to the Welsh Ministers.

(2) Anything done before the transfer date by or in relation to the Board in respect of any person C or that person's contract of employment is to be treated from that date as having been done by or in relation to the Welsh Ministers.

Access to records

6.—(1) Where records owned by the Board immediately before the transfer date have transferred to the Commissioner as a result of this Order, the Welsh Ministers may, after providing reasonable notice—

- (a) inspect those records; and

(b) cymryd copïau o'r cofnodion hynny neu unrhyw ran ohonynt, neu caniateir i'r copïau neu'r rhannau hynny gael eu darparu iddynt.

(2) Nid yw pŵer Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1) yn gymwys i gofnodion sy'n ymwneud â chyflogaeth personau B.

(3) Pan fo cofnodion yr oedd y Bwrdd yn berchen arnynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, caiff y Comisiynydd, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol—

(a) edrych ar y cofnodion hynny; a

(b) cymryd copïau o'r cofnodion hynny neu unrhyw ran ohonynt, neu caniateir i'r copïau neu'r rhannau hynny gael eu darparu iddo.

(4) Nid yw pŵer y Comisiynydd o dan baragraff (3) yn gymwys i gofnodion sy'n ymwneud â chyflogaeth personau A neu C.

(5) Rhaid i'r pwerau a roddwyd gan yr erthygl hon gael eu harfer yn ystod oriau gwaith arferol.

Darpariaeth gyffredinol

7. Nid effeithir ar drosglwyddiadau o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, y rhoddir effaith iddynt gan y Gorchymyn hwn, gan unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag y bo) a fyddai fel arall yn atal y trosglwyddiadau hynny neu'n cyfyngu arnynt.

(b) take, or be supplied with, copies of those records or any part of them.

(2) The Welsh Ministers' power under paragraph (1) does not apply to records relating to the employment of persons B.

(3) Where records owned by the Board immediately before the transfer date have transferred to the Welsh Ministers as a result of this Order, the Commissioner may, after providing reasonable notice—

(a) inspect those records; and

(b) take, or be supplied with, copies of those records or any part of them.

(4) The Commissioner's power under paragraph (3) does not apply to records that relate to the employment of persons A or C.

(5) The powers conferred by this article must be exercised during normal office hours.

General provision

7. The transfers of property, rights and liabilities given effect by this Order are not affected by any provision (of whatever nature) which would otherwise prevent or restrict those transfers.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2012

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

7 March 2012

Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd sy'n trosglwyddo i Weinidogion Cymru

Board property, rights and liabilities transferring to the Welsh Ministers

RHAN 1

PART 1

Eiddo

Property

1. (a) Y gadair Enigma S21 sy'n dwyn y rhif model E760MF a'r rhif cyfresol 101562;
- (b) eiddo sy'n ymwneud yn unig â phrosiect Bwrdd perthnasol; ac
- (c) pob cofnod ac eithrio cofnodion sy'n ymwneud yn unig â—
 - (i) cytundebau grant a gytunwyd rhwng y Bwrdd a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru;
 - (ii) cytundebau grant a gytunwyd rhwng y Bwrdd a Phrifysgol Bangor;
 - (iii) cyflogi personau B gan y Bwrdd;
 - (iv) gwaith ymchwil a chasglu data a wnaed, neu a gomisiynwyd, gan y Bwrdd mewn cysylltiad â'r defnydd o'r Gymraeg;
 - (v) prosiectau canlynol y Bwrdd—
 - (aa) 'Cymraeg yn y gweithle';
 - (bb) 'Iaith Gwaith';
 - (cc) 'Mae gen ti ddewis';
 - (dd) 'Enwau Lleoedd';
 - (ee) 'Estyn Llaw';
 - (ff) safoni terminoleg yn y Gymraeg;
 - (gg) datblygu a hybu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys geiriaduron ar-lein);
 - (hh) cydlynu a rheoleiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfieithu;
 - (vi) gwaith a wnaed gan y Bwrdd i hybu manteision defnyddio'r Gymraeg ymysg y sector gwirfoddol a busnesau;
 - (vii) cynlluniau iaith Gymraeg perthnasol;
 - (viii) gwaith a wnaed gan y Bwrdd gan ddisgwyl y câi swydd y Comisiynydd ei sefydlu; a
 - (ix) ceisiadau am wybodaeth ynghylch unrhyw un neu rai o'r materion a ddisgrifir ym Mharagraffau (i) i (viii), uchod, sy'n geisiadau y mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(1) yn gymwys iddynt.

1. (a) The Enigma S21 chair that bears the model number E760MF and serial number 101562;
- (b) property which relates exclusively to a relevant Board project; and
- (c) all records other than records relating exclusively to—
 - (i) grant agreements entered into by the Board with the Association of Welsh Translators and Interpreters;
 - (ii) grant agreements entered into by the Board with Bangor University;
 - (iii) employment by the Board of persons B;
 - (iv) research and data collection undertaken or commissioned by the Board in connection with the use of Welsh;
 - (v) the following Board projects—
 - (aa) 'Cymraeg yn y gweithle';
 - (bb) 'Iaith Gwaith';
 - (cc) 'Mae gen ti ddewis';
 - (dd) 'Enwau Lleoedd';
 - (ee) 'Estyn Llaw';
 - (ff) the standardisation of Welsh language terminology;
 - (gg) the development and promotion of the use of Welsh language information technology (including on-line dictionaries);
 - (hh) the co-ordination and regulation of the provision of translation services;
 - (vi) work undertaken by the Board to promote the benefits of using Welsh to the voluntary sector and businesses;
 - (vii) relevant Welsh language schemes;
 - (viii) work undertaken by the Board in anticipation of the establishment of the Commissioner's office; and
 - (ix) requests for information to which the Freedom of Information Act 2000(1) applies made to the Board regarding any of the matters described in Paragraphs (i) to (viii), above.

Dehongli

2. Yn y Rhan hon—

mae i "cais am wybodaeth" yr un ystyr ag a briodolir i "request for information" yn adran 8 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;

ystyr "cynllun addysg Gymraeg" ("*Welsh education scheme*") yw unrhyw gynllun a baratowyd neu a fabwysiadwyd yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 1993 ac sy'n ymwneud yn unig â darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg;

ystyr "cynllun iaith Gymraeg perthnasol" ("*relevant Welsh language scheme*") yw unrhyw gynllun a baratowyd neu a fabwysiadwyd yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 1993 nad yw'n gynllun addysg Gymraeg; a

ystyr "prosiect Bwrdd perthnasol" ("*relevant Board project*") yw—

- (a) 'Twf';
- (b) 'Mae dy Gymraeg di'n grêt';
- (c) 'Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc';
- (d) 'Cefnogi partneriaid cymunedol y Bwrdd';
- (e) 'Cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau sydd angen cymorth'; ac
- (f) Cerddoriaeth Gymraeg Gymunedol.

RHAN 2

Hawliau a Rhwymedigaethau

3. Hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi mewn cysylltiad ag—

- (a) unrhyw eiddo sy'n trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw brosiect Bwrdd perthnasol; ac
- (c) unrhyw gytundeb grant perthnasol.

Dehongli

4. Yn y Rhan hon—

mae i "prosiect Bwrdd perthnasol" ("*relevant Board project*") yr un ystyr ag yn Rhan 1; ac

ystyr "cytundeb grant perthnasol" ("*relevant grant agreement*") yw unrhyw gytundeb grant sydd wedi cael ei gytuno gan y Bwrdd er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac nad yw'n disgyn o fewn unrhyw un neu rai o'r categorïau canlynol o gytundeb—

- (a) cytundebau sy'n ymwneud yn unig â phrosiect 'Estyn Llaw';

Interpretation

2. In this Part—

"relevant Board project" ("*prosiect Bwrdd perthnasol*") means—

- (a) 'Twf';
- (b) 'Mae dy Gymraeg di'n grêt';
- (c) 'Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc';
- (d) 'Cefnogi partneriaid cymunedol y Bwrdd';
- (e) 'Cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau sydd angen cymorth'; and
- (f) 'Cerddoriaeth Gymraeg Gymunedol';

"relevant Welsh language scheme" ("*cynllun iaith perthnasol*") means any scheme prepared or adopted in accordance with Part 2 of the 1993 Act which is not a Welsh education scheme;

"request for information" ("*cais am wybodaeth*") has the same meaning as in section 8 of the Freedom of Information Act 2000; and

"Welsh education scheme" ("*cynllun addysg Gymraeg*") means any scheme prepared or adopted in accordance with Part 2 of the 1993 Act which deals only with the provision of Welsh medium education.

PART 2

Rights and Liabilities

3. Rights and liabilities arising in relation to—

- (a) any property transferring as a result of this Order to the Welsh Ministers;
- (b) any relevant Board project; and
- (c) any relevant grant agreement.

Interpretation

4. In this Part—

"relevant Board project" ("*prosiect Bwrdd perthnasol*") has the same meaning as in Part 1; and

"relevant grant agreement" ("*cytundeb grant perthnasol*") means any grant agreement entered into by the Board to promote and facilitate the use of Welsh that does not fall within any of the following categories of agreement—

- (a) agreements relating exclusively to the 'Estyn Llaw' project;

- (b) cytundebau â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru;
- (c) cytundebau â Phrifysgol Bangor.

- (b) agreements with the Association of Welsh Translators and Interpreters;
- (c) agreements with Bangor University.

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.